

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Ebrill 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S.H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, Ms R. Siddall, D. Simmons, Parch. S. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

152. DECHRAU'R CYFARFOD

Yn absenoldeb Caplan y Maer, dechreuodd y Parchedig Gynghorydd S. Walker y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

153. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), W. N. Tasker (yn sâl) , T. Thomas (ar wyliau) a Dirprwy Glerc y Dref Miss H. J. Windus (yn sâl).

154. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15fed Mawrth 2017 - Rhifau Cofnod 138-151

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Mawrth 2017 - Rhifau Cofnod 58-60

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 5ed Ebrill 2017 - Rhifau Cofnod 61-64

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 5ed Ebrill 2017 - Rhifau Cofnod 124-140
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

155. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer a'r Dirprwy Faer at amrywiol ddigwyddiadau a fynychwyd ganddynt a'u mwynhau.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

156. AWDURODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B, rhestr o daliadau ar rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'u llofnodi gan y Maer a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.*

(a) *Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (Ebrill 2017)*

Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaethau a Ddarparwyd	Rhif Taleb	Dull Talu	Swm £
NWN Media	Dosbarthu taflen ddigyddiadau yn y Rhyl Journal	261	Tros. Banc	202.76
Blachere	Prynu goleuadau	262	Tros. Banc	4,380.00
Blachere	Prynu goleuadau	263	Tros. Banc	1,571.14
4TheCommunity	Adeiladu Blychau Llyfrgell Bach	264	Tros. Banc	390.00
Gunsmoke Communications	Treuliau Hyrwyddo ar gyfer Rhaglen Ddigwyddiadau	265	Tros. Banc	154.83
T2Green	Arlwyo a Llogi Ystafell ar gyfer Cwis Elusen y Maer	266	Siec	472.00
The Aloud Charity	Elw Net o Gwis Elusen y Maer	267	Siec	700.00
Cymdeithas GaChC	3 Cynrychiolydd ar gyfer cyfarfod dydd Gwener 21 Ebrill 2017	268	Tros. Banc	48.00
Cyfaswm ar gyfer Atodlen B				£7.918.73

157. CYFLWYNIAD GAN Y MAER

Croesawodd y Maer Ms Eleri Watkins (Rheolwr Gogledd Cymru) i'r cyfarfod ynghyd ag aelodau'r côr Daniel Hilton a Harri Rees Jones oll o Only Boys Aloud y Rhyl a chyflwyno siec am £700, arian a godwyd yn ystod ei blwyddyn yn y swydd.

Derbyniodd y cynrychiolwyr y siec a diolch i'r Maer am yr arian a godwyd. Siaradwyd am rôl y côr yn y gymuned leol a nifer yr aelodau yn y Rhyl.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen James iddi, yn ei rôl fel Dirprwygadeirydd y Cyngor Sir, fynychu cyngerdd yn ddiweddar yn Neuadd y Dref y Rhyl gan y Côr a'i bod yn ystyried ei fod yn eithriadol o dda.

158. CAIS I ANNERCH Y CYNGOR - WICKED WALES 16

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn cais gan Ms Rhiannon Hughes MBE, Cyfarwyddwr yr Wyl, i annerch cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol mewn perthynas â Gŵyl Ffilmiau Rhyngwladol arfaethedig.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r cais a gwahodd Ms Hughes i fynychu cyfarfod ar ôl yr etholiadau.*

159. DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Ymhellach i gofnod 130 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2017, gofynnodd y Cadeirydd am gael cadarnhau'r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol yn ystod y cyfnod 20ed Ebrill 2017 – 8fed Mai 2017 i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r Aelodau canlynol:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Eitemau Pwyllgor CSG	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG
Holl Fusnes Arall	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y PC a DC

Am y cyfnod 8fed Mai 2017 tan y Cyfarfod Blynyddol ar 17eg Mai 2017, gyda phwerau gweithredol ar gyfer holl faterion yn cael eu dirprwyo i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r Maer.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r trefniadau.

160. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd Clerc y Dref ei fod angen cyfarwyddyd, ar ôl cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol i'w chynnal ar 8fed Mehefin 2017, mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol sydd i'w gynnal ar 7fed Mehefin 2017. Dywedodd mai'r arfer oedd canslo cyfarfodydd y Cyngor os oeddynt yn syrthio yn union cyn etholiad, ond oherwydd amserlenni angenrheidiol yr oedd angen cydymffurfio â nhw, nid oedd modd gwneud hyn ar yr achlysur hwn. Awgrymodd Clerc y Dref y byddai modd ad-drefnu'r cyfarfod, i'w gynnal ar 14eg Mehefin os yw hynny'n ddymunol i'r Aelodau.

Cyfeiriodd Aelod at adroddiad yn y wasg yn ddiweddar y gallai etholiadau Llywodraeth Leol i'w cynnal ar 4ydd Mai gael eu had-drefnu i gyd-daro â'r Etholiad Cyffredinol a'r costau ychwanegol i'r Cyngor Tref pe byddai hyn yn gywir.

PENDERFYNWYD:

- (i) *Gohirio cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a oedd i'w gynnal ar 7fed Mehefin 2017 tan 14eg Mehefin 2017, a*
- (ii) *Bod Clerc y Dref yn holi'r Swyddog Etholiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych i weld os oedd unrhyw bosibilrwydd o ad-drefnu'r etholiadau Llywodraeth Leol ac i ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth Cymru os felly.*

161. HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

162. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

163. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

164. TERFYNU'R CYFARFOD

Cyn dirwyn y cyfarfod i ben, mynegodd y Maer ac Aelodau eraill eu diolch a'u dymuniadau gorau i'r Cynghorwyr a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll ar gyfer ail-etholiad, am eu hymroddiad i'w Wardiau ac i'r Cyngor Tref cyfan.

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: